
adnabod arlunydd

# JAC JONES





Petai rhywun yn rhoi pêl-droed a phensil a phapur o flaen fy nhrwyn ni fyddwn yn cyffwrdd â'r ddau olaf ond yn hytrach fe welech fi'n rhedeg o gwmpas fel gerbil yn cicio pêl-droed i bob man. Eto i gyd, bob dydd, rwy'n gwneud darluniau er mwyn ennill fy mara menyn. Dros gyfnod o ugain mlynedd rwyf wedi cynhyrchu miloedd o'r darluniau hyn, ac mewn gwirionedd byddai'n llawer iawn gwell gennyf fod yn chwarae pêl-droed.

Pan oeddwn i'n hogyn bach roeddwn i bob amser yn brysur yn gwneud pob math o bethau eraill. Felly sut y gwnes i ddechrau ymddiddori mewn arlunio? Wel, pan oeddwn i'n saith oed (dyma lun ohonof i yn ceisio edrych yn hŷn na saith oed yn y dyddiau cyn bod teledu, cyfrifiadur na chribau gwallt!), byddwn yn treulio nosweithiau hir y gaeaf yn sgriblo darluniau bychan. Un diwrnod penderfynodd Nain fod y rhain yn 'llunia eitha da 'ngwas i'. Penderfynodd Nain hefyd y dylwn gymryd rhan yng nghystadlaethau arlunio Clwb *Y Cymro*. Mi wnes er nad oeddwn yn rhy fodlon i wneud hynny, a chan amlaf byddai'n rhaid fy ngorfodi gerfydd fy ngholer! Byddwn yn eistedd o flaen y papur yn sgyrnygu o dan fy ngwynt ac yn meddwl am fy holl ffrindiau yn sgorio goliau bythgofiadwy ac yn disgyn i fwd oedd fel grefi. Mi enillais beth wmbreth o wobrau. Ond wnaeth hynny roi dim anogaeth i mi - dim ond i Nain. Mae 'na adegau rŵan pan dwi'n eistedd a mwmial a dymuno fy mod yn rhywle arall, ond am y rhan fwyaf o'r amser dwi'n hapus yn llenwi darnau o ganfas efo darnau o ddychymyg. Ac wrth gwrs, mae 'na obaith y byddwch chi'n hoffi yr hyn dwi'n ei wneud.

Wel, rhaid mynd rŵan - mae'n well i mi llnau fy 'sgidiau pêl-droed! Wel 'dach chi byth yn gwybod!

Jac Jones

(LEFFT BAC)